## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1533(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At William Graham:**

Yn ystod sesiwn Cwestiynau'r Cynulliad ar 16 Mai, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch unrhyw bosibilrwydd o gymorth gan Lywodraeth y Cynulliad i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (yr RNLI).

Nid yw ariannu gwasanaethau brys yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli. Nid yw'r RNLI felly yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r galwadau ar gyllideb y Cynulliad i ariannu'r swyddogaethau sydd wedi cael eu datganoli yn enfawr. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i ddosrannu rhan o gyllideb y Cynulliad i ariannu'r RNLI neu achosion clodwiw eraill sydd yn disgyn i gategori gwasanaethau brys sydd heb gael eu datganoli.

Mae'r RNLI yn darparu gwasanaeth campus a hir y parhaed hynny. Os nad ydynt eisoes wedi gwneud, gallaf ond awgrymu bod yr RNLI yn ymchwilio i'r ffynonellau ariannu posibl a ganlyn:

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnal rhestr o lwybrau ariannu sydd ar gael i'r sector wirfoddol. Eu manylion cyswllt yw:

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FH
Ffôn: 02920 2043 1700
www.wcva.org.uk
e-bost: help@wcva.org.uk

Yn lle hynny, efallai bydd yn ddefnyddiol cysylltu â'r Gronfa Loteri Fawr i weld pa gyngor neu gymorth a allent hwy eu cynnig. Eu manylion cyswllt yw:

Y Gronfa Loteri Fawr
6ed Llawr
1 Ffordd y Brenin
Caerdydd
CF10 3JN
www.biglotteryfund.org.uk/
Teleffon: 029 2067 8200
Ffacs: 029 2066 7275
E-bost: enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1555(FM), a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog**

**At Janet Davies:**

Yn ystod ein trafodaeth yn y cyfarfod llawn ar 16 Mai, ynglŷn â chwestiwn Lynne Neagle ynghylch statws gwlad masnach deg i Gymru, addewais ysgrifennu mewn ymateb i'ch ymyriad ar sylwadau i Gyngor y Gweinidogion ar effaith polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd ar brosiectau masnach deg. Mae'n flin gennyf am yr oedi cyn ymateb.

Gall y broses o negodi a gwneud penderfyniadau ar lefel yr UE fod yn broses gymhleth. Yn bwysicach na hynny, mae yna brosesau mewnol wedi'u profi yn y Deyrnas Unedig i sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu'n uniongyrchol at lunio safbwynt negodi y DU ar faterion sy'n ymwneud â'r PAC a fyddai hefyd yn cwmpasu'r agweddau amaethyddol o dan drafodaethau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ac Agenda Ddatblygu Doha (DDA) er budd gwledydd sy'n datblygu, yn enwedig o ardaloedd Affrica, y Caribî a'r Môr Tawel. Ar agenda amaethyddol y WTO a'r DDA mae'r materion allweddol yn ymwneud â chymorth domestig, mynediad i'r farchnad a chymorthdaliadau allforio.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llwyr gymeradwyo'r diwygiadau diweddar i'r PAC, gan gydnabod bod angen cyflawni mwy os ydyw'r UE am chwarae ei rôl wrth helpu'r gwledydd sy'n datblygu i wneud cynnydd economaidd o fewn marchnad fyd-eang sy'n fwyfwy cystadleuol ar gyfer prosiectau amaethyddol. Bydd hyn ymhlith amryw o faterion sy'n berthnasol i Gymru a'r DU y byddaf yn eu trafod yn uniongyrchol â Mariann Fischer Boel, Comisiynydd yr UE dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, pan fyddaf yn cyfarfod â hi yn ddiweddarach y mis hwn.

Caiff Carwyn Jones drafodaethau cyson gyda'i gyd-Weinidogion o rannau eraill y DU, gyda chymorth ymgysylltiad helaeth y swyddogion, ar amryw o faterion amaethyddol, gan gynnwys y PAC. Yr hyn a ddywedwn yw bod Llywodraeth y Cynulliad wedi chwarae rôl hanfodol, o ran datblygu safbwynt negodi y DU ac fel rhan o dîm y DU, boed ar lefel Gweinidog neu swyddog, yn nhrafodaethau yr UE a gyflawnodd ddiwygiadau sylfaenol i'r PAC yn 2003—pecyn diwygio sy'n pennu'r PAC hyd at 2013. Yn wir, bu i Lywodraeth y Cynulliad nodi yn 'Ffermio i'r Dyfodol', a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2001, bod diwygio'r PAC yn agwedd allweddol wrth ddarparu'r sail ar gyfer diwydiant amaethyddol cynaliadwy i Gymru.

Yr oedd y cytundeb a wnaed yn 2003 yn gwbl gyson â'n barn ni am y pecyn diwygio y byddai ar y PAC ei angen. At hynny, cydnabyddir bod gan y diwygiad mewnol hwn yn yr UE i'r system cymorthdaliadau i ffermydd oblygiadau yng nghyd-destun y WTO a'r DDA.

Un elfen allweddol yn y broses ddiwygio oedd torri'r cysylltiad rhwng cynhyrchu a derbyniadau cymhorthdal y PAC. Yn fwy adnabyddus fel datgysylltu, gweithredwyd y sail hon ar gyfer diwygio'r PAC yng Nghymru, fel mewn mannau eraill o fewn y DU a'r rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau eraill, yn 2005. Wrth wneud hynny, daeth y taliadau sengl dull newydd yn gydnaws o ran 'y blwch gwyrdd' ar gyfer dibenion y WTO lle ystyrir bod trefniadau'r UE ar gyfer cymorth domestig wedi'i ddatgysylltu i ffermwyr bellach heb unrhyw effeithiau afluniol o ran masnach neu, ar y mwyaf, â'r isafswm.

Yn ogystal, drwy ddiwygio'r PAC dilëwyd y cymhelliant a oedd yn gysylltiedig â'r drefn gymhorthdal PAC flaenorol lle gallai ffermwyr gynyddu eu hincwm drwy system gynhyrchu a oedd yn meddu ar ychydig iawn o realiti o safbwynt anghenion y farchnad a'r galw gan ddefnyddwyr. Gyda mentrau fferm bellach yn cael eu sbarduno'n fwy gan realiti'r farchnad,

bydd y duedd yn y gorffennol o or-gynhyrchu a'r gwargedau y byddai'r UE yn eu hallforio, yn draddodiadol, i farchnadoedd y byd gyda chymorth cymorthdaliadau allforio, yn lleihau.

Ar yr agweddau o safbwynt y WTO a'r DDA, er bod gwledydd unigol, gan gynnwys rhai'r UE, fel y DU, yn aelodau o'r WTO yn eu rhinwedd eu hun, mae'r UE yn negodi ar faterion masnach fel un corff, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd â chyfrifoldeb am y negodi ar gyfer yr UE ar y cyd. Mae'r DU yn cyfrannu at y broses hon drwy fecanweithiau negodi a chyd-drefnu mewnol yr UE. Er bod cyfarfod diweddaraf y WTO yng Ngenefa y mis diwethaf wedi methu â gwneud cynnydd, cytunwyd yn ystod trafodaethau Hong Kong yn Rhagfyr 2005 y byddai cymorthdaliadau allforio amaethyddol yn dod i ben erbyn 2013, gyda gostyngiad sylweddol wedi'i wneud erbyn 2010. Gweithredir yr ymrwymiad hwn gan yr UE.

Wrth edrych i'r dyfodol, yn 2008 bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi 'archwiliad iechyd' o becyn diwygio'r PAC yn 2003. Un elfen o'r gwaith hwn fydd hysbysu dadl o fewn yr UE ynghylch cyfeiriad y PAC ar ôl 2013. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad waith eisoes ar y gweill i lywio ein safbwynt ynglŷn â'r goblygiadau posibl i Gymru. Yr ydym wedi sefydlu grŵp annibynnol, a bydd yn ofynnol iddo roi adroddiad erbyn haf y flwyddyn nesaf ar y rhagolygon ar gyfer ffermio, yr amgylchedd a chefn gwlad yn 2020. Bydd y casgliadau yn helpu i lywio dull gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfeiriad y PAC yn y dyfodol a fydd yn ystyried nid yn unig anghenion Cymru a ffermio yng Nghymru ond yn un sy'n cydnabod sefyllfa fyd-eang amaethyddiaeth ac anghenion gwledydd sy'n datblygu.